Adran Gwaith a Phensiynau

# Adolygiad o oedran Pensiwn y Wladwriaeth

Gorffennaf 2017

# Adolygiad o oedran Pensiwn y Wladwriaeth

Cyflwynwyd gerbron y Senedd yn unol ag adran 27(6) y Ddeddf Pensiynau 2014

Gorffennaf 2017

**© Hawlfraint y Goron 2017**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint gan drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn state.pensionagereview@dwp.gsi.gov.uk

Print ISBN 9781474143875
Web ISBN 9781474143882

ID 19041722 07/17

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran
Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys

**Crynodeb gweithredol** **2**

System Pensiwn y Wladwriaeth deg a chynaliadwy 2

Sylfaen y dystiolaeth 5

Cynnal tegwch yn yr hirdymor 7

Cefnogaeth yn hwyrach mewn bywyd 7

# Crynodeb gweithredol

Dyma adroddiad yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ar adolygiad cyntaf y Llywodraeth o oedran Pensiwn y Wladwriaeth, fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Pensiynau 2014.[1]

Mae'r adolygiad yn edrych i'r dyfodol ac yn canolbwyntio ar y cyfnod ar ôl 2028.

Mae disgwyliad oes yn codi yn achos dathlu. Mae'r Llywodraeth yn benderfynol o sicrhau y gall pobl barhau i fwynhau disgwyliad oes sy'n tyfu gyda sicrwydd am yr hyn y gallant ei ddisgwyl gan y wladwriaeth ar ôl ymddeol, a gyda'r sicrwydd y bydd Pensiwn y Wladwriaeth llawn newydd yn darparu sylfaen gadarn i seilio penderfyniadau o gwmpas cynilo ar gyfer ymddeoliad. Os yw rhagdybiaethau presennol yn profi i fod yn eithaf cywir, ar ôl 2028 byddwn yn gweld:

- cyfran uwch o'r boblogaeth yn goroesi i oedran Pensiwn y Wladwriaeth;[2] a
- pobl yn cael mwy o Bensiwn y Wladwriaeth yn ystod eu hoes na'r cenedlaethau o'u blaen.[3]

## System Pensiwn y Wladwriaeth deg a chynaliadwy

Mae'n hanfodol bwysig i ddyfodol y system Pensiwn y Wladwriaeth ein bod yn ystyried y cynyddu mewn disgwyliad oes. Yn 1948, pan gyflwynwyd y Pensiwn y Wladwriaeth fodern, gallai person 65 oed ddisgwyl treulio 13½ mlynedd, neu 23%, o'u bywyd fel oedolyn yn cael Pensiwn y Wladwriaeth, gan dybio bod bywyd fel oedolyn yn dechrau yn 20 oed.[4,5] Yn 1995, pan weithredwyd y newidiadau cyntaf i gynyddu oedran Pensiwn y Wladwriaeth, gallai person 65 oed ddisgwyl byw am 18½ mlynedd, neu 29% o'u bywyd fel oedolion. Roedd hyn wedi codi i 21 o flynyddoedd erbyn 2007, neu 32% o'u bywyd fel oedolion, pan gyflwynwyd deddfwriaeth bellach i gynyddu oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Mae'r tueddiad hwn yn argoeli i barhau yn y dyfodol.

Yn ogystal, mae'r cynnydd sylweddol yn y boblogaeth ar ôl yr Ail Ryfel Byd, sef y genhedlaeth cyfeirir atynt aml fel y 'baby boomers' (ganwyd rhwng 1945 a 1965), yn awr yn bwydo trwodd i gynnydd yn y boblogaeth o bensiynwyr. Bydd hyn yn cael effaith sylweddol dros yr 25 mlynedd nesaf oherwydd mae disgwyl i'r nifer o bobl sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth dyfu o draean, o 12.4 miliwn i 16.9 miliwn,[6] tra bydd cyfran y boblogaeth sy'n cynnwys pobl o oedran gweithio sy'n eu cynnal yn dechrau gostwng. Mae disgwyl i'r gyfradd dibyniaeth henoed, sy'n dangos y nifer o bensiynwyr fesul mil o unigolion o oedran gweithio, gynyddu o 301 o bensiynwyr am bob 1,000 o bobl o oedran gweithio yn 2007, i 372 o bensiynwyr am bob 1,000 o bobl o oedran gweithio erbyn 2042.[7]

[1] DWP (2014) *Y Ddeddf Pensiynau 2014*. Ar gael yn: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/19/contents/enacted
[2] Government Actuary (2017) *State Pension age periodic review: report by the Government Actuary*. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/state-pension-age-periodic-review-report-by-the-government-actuary
[3] O modelu DWP yn seiliedig ar hawliau Pensiwn y Wladwriaeth yn y dyfodol ac amcanestyniadau disgwyliad oes o ONS
[4] ONS (2016) *2014-based England and Wales cohort life expectancies at birth, 1841 to 2064*. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/lifeexpectancies/adhocs/0059922014basedenglandandwalescohortlifeexpectanciesatbirth1841to2064
[5] Mae'r ffigwr disgwyliad oes yn gyfartaledd ar gyfer dynion a menywod. Trwy gydol yr adroddiad hwn, oni nodir yn wahanol, mae'r ffigurau disgwyliad oes yn cynrychioli cyfartaledd cyfunol ar gyfer dynion a menywod. Mae'r ffigurau ynghylch disgwyliad oes yn 65 oed (sy'n hafal i oedran Pensiwn y Wladwriaeth gwrywaidd) yn cael eu defnyddio yn yr adroddiad hwn er mwyn caniatáu cymariaethau ystyrlon dros gyfnodau o amser yn y gorffennol.
[6] ONS (2015) *2014-based National population projections*. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulation andcommunity/populationandmigration/populationprojections/compendium/nationalpopulationprojections/2015-10-29
[7] ONS (2015). *2014-based National Population Projections, table A1-1*. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/ peoplepopulation andcommunity/populationandmigration/populationprojections/bulletins/nationalpopulationprojections/2015-10-29/relateddata

Mae'n bwysig i ymateb i'r newidiadau demograffig sylweddol hyn oherwydd bod cyfraniadau Yswiriant Gwladol y boblogaeth oedran gweithio heddiw yn darparu ar gyfer Pensiynau'r Wladwriaeth heddiw ar sail 'talu wrth fynd'. Mae'r costau maent yn eu hwynebu ar fin codi: mae adroddiad annibynnol John Cridland, a gomisiynwyd i lywio'r adolygiad oedran Pensiwn y Wladwriaeth hon, yn nodi erbyn 2036/37 bydd y gwariant ar Bensiwn y Wladwriaeth yn cynyddu o 1% o GDP,[8] sy'n cyfateb i £20bn yn nhermau heddiw. Os byddai'r un cynnydd mewn gwariant yn cael ei wynebu heddiw, byddai hyn yn cyfateb i gynnydd mewn trethi o £725 i bob cartref. Felly, os ydym am roi'r urddas i bobl hŷn sy'n ddyledus iddynt a’r cyfleoedd i bobl iau y maent yn eu haeddu, rydym yn wynebu rhai penderfyniadau anodd.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ddarparu system Pensiwn y Wladwriaeth deg a gwydn, a all wrthsefyll amrywiadau demograffig ac sy'n rhoi sicrwydd i bobl mewn ymddeoliad. I'r perwyl hwn, yn 2013 cynnigiodd y Llywodraeth gynyddu oedran Pensiwn y Wladwriaeth i adlewyrchu newidiadau mewn disgwyliad oes,[9] a chyflwynwyd mecanwaith adolygu oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn y Ddeddf Pensiynau 2014, oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywodraeth gynnal adolygiadau cyfnodol o drefniadau oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Mae'r Llywodraeth yn gosod allan yr egwyddorion canlynol sy'n sail i'r adolygiad:

- bydd newidiadau yn y dyfodol i oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn sicrhau y gall pobl ddisgwyl treulio ar gyfartaledd "hyd at draean" o'u bywydau fel oedolion yn cael Pensiwn y Wladwriaeth i adlewyrchu profiad cenedlaethau diweddar; a
- bydd y Llywodraeth yn ceisio rhoi o leiaf 10 mlynedd o rybudd ar gyfer unigolion yr effeithir arnynt gan y newidiadau newydd i'w oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Er y bydd cost y Pensiwn y Wladwriaeth a heneiddio yn fwy eang yn parhau i gynyddu, bydd y broses adolygu hon yn helpu i sicrhau bod y system yn dod yn fwy cynaliadwy mewn ffordd sy'n deg ar draws cenedlaethau o bensiynwyr a threthdalwyr.

## Newidiadau diweddar i’r system bensiynau

Mae'r adolygiad o oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn rhan o gyfres o fesurau y mae'r Llywodraeth wedi'u cyflwyno ers 2010 i wella canlyniadau ar gyfer pensiynwyr a gosod system bensiwn y DU ar sail symlach a mwy cynaliadwy:

- I sicrhau bod incwm pensiynwyr yn cael eu cynnal, cyflwynwyd y cynnydd clo triphlyg ar gyfer Pensiynau'r Wladwriaeth sylfaenol a newydd.
- Mae’r Pensiwn y Wladwriaeth newydd wedi'i gynllunio i roi sylfaen cliriach ble y gall unigolion gynilo ar gyfer pensiwn preifat. Erbyn 2030 bydd dros 80% o unigolion sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn derbyn y gyfradd lawn o Bensiwn y Wladwriaeth newydd.[10]
- Mae'r Llywodraeth hefyd wedi cymryd camau i fynd i'r afael â rhai o'r materion pwysicaf sy'n wynebu'r system bensiynau, gan gynnwys: cefnogi pobl hŷn i weithio am gyfnod hwy drwy ddiddymu'r Oedran Ymddeol Diofyn a chyflwyno hawl i ofyn am weithio hyblyg; a mynd i'r afael a than-gynilo ar gyfer ymddeoliad drwy gyflwyno cofrestru awtomatig.

[8] State Pension age independent review (2017) *State Pension age independent review final report*. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/state-pension-age-independent-review-final-report

[9] DWP (2013) *The single-tier pension: a simple foundation for saving*. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/the-single-tier-pension-a-simple-foundation-for-saving

[10] DWP (2016) *New State Pension: impact on an individual’s pension entitlement – longer term effects*. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/new-state-pension-impact-on-an-individuals-pension-entitlement-longer-term-effects

Rydym wedi gweld cynnydd graddol yn nisgwyliad oes y boblogaeth 65 oed ers dros ganrif.[11] Mae'r Llywodraeth eisoes wedi cymryd camau pendant i wella cynaliadwyedd system Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer y cyfnod hyd at 2028, gan gydnabod y rheidrwydd I weithredu'n gyflym yng ngoleuni'r dystiolaeth gref bod demograffeg sy'n newid ac amcanestyniadau disgwyliad oes yn y dyfodol yn rhoi pwysau cynyddol ar y system. Rydym:

- wedi cyflymu cydraddoli oedran Pensiwn y Wladwriaeth merched a dynion o hyd at 18 mis;
- wedi dod â’r cynnydd o 65 oed i 66 oed ymlaen gan 5 mlynedd a hanner (fel ei fod yn cael ei gwblhau erbyn 2020); ac
- wedi dod â’r cynnydd i oedran Pensiwn y Wladwriaeth o 66 oed i 67 oed ymlaen gan 8 mlynedd (nawr 2026 i 2028).

Yn y gorffennol, mae'r DU wedi bod yn araf i gymryd ystyriaeth o'r cynnydd yma gyda oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn aros yn sefydlog ar 65 oed i ddynion a 60 oed i ferched tan 2010. Roedd hyn yn golygu bod y cyfnod a dreuliwyd mewn gwaith, fel canran o fywyd oedolyn yn raddol yn gostwng; ar yr un pryd roedd y ganran o fywyd oedolyn yn cael Pensiwn y Wladwriaeth yn tyfu. O ganlyniad, yn y 10 mlynedd diwethaf, bu newidiadau i oedran Pensiwn y Wladwriaeth mewn tair Deddf Seneddol ar wahân.

Diolch i'r camau rydym wedi'u cymryd, mae Pensiwn y Wladwriaeth y DU yn awr ar sail gadarnach, a dylai'r fframwaith adolygu oedran Pensiwn y Wladwriaeth gynnal y sefyllfa honno, drwy ei ymateb gwell i newid amcanestyniadau disgwyliad oes. Ond rhaid bod yn glir, bydd angen newidiadau pellach i oedran Pensiwn y Wladwriaeth i sicrhau system Pensiwn y Wladwriaeth fwy sefydlog yn y dyfodol, gan y rhagwelir i ddigwyliad oes barhau i gynyddu. Mewn ugain mlynedd, rhagwelir y bydd disgwyliad oes ar 65 oed wedi cynyddu o ddwy flynedd pellach ar gyfer dynion a merched.[12]

Rydym wedi gweld cynnydd graddol yn nisgwyliad oes y boblogaeth 65 oed ers dros ganrif.[11] Mae'r Llywodraeth eisoes wedi cymryd camau pendant i wella cynaliadwyedd system Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer y cyfnod hyd at 2028, gan gydnabod y rheidrwydd I weithredu'n gyflym yng ngoleuni'r dystiolaeth gref bod demograffeg sy'n newid ac amcanestyniadau disgwyliad oes yn y dyfodol yn rhoi pwysau cynyddol ar y system. Rydym:

- wedi cyflymu cydraddoli oedran Pensiwn y Wladwriaeth merched a dynion o hyd at 18 mis;
- wedi dod â’r cynnydd o 65 oed i 66 oed ymlaen gan 5 mlynedd a hanner (fel ei fod yn cael ei gwblhau erbyn 2020); ac
- wedi dod â’r cynnydd i oedran Pensiwn y Wladwriaeth o 66 oed i 67 oed ymlaen gan 8 mlynedd (nawr 2026 i 2028).

Yn y gorffennol, mae'r DU wedi bod yn araf i gymryd ystyriaeth o'r cynnydd yma gyda oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn aros yn sefydlog ar 65 oed i ddynion a 60 oed i ferched tan 2010. Roedd hyn yn golygu bod y cyfnod a dreuliwyd mewn gwaith, fel canran o fywyd oedolyn yn raddol yn gostwng; ar yr un pryd roedd y ganran o fywyd oedolyn yn cael Pensiwn y Wladwriaeth yn tyfu. O ganlyniad, yn y 10 mlynedd diwethaf, bu newidiadau i oedran Pensiwn y Wladwriaeth mewn tair Deddf Seneddol ar wahân.

Diolch i'r camau rydym wedi'u cymryd, mae Pensiwn y Wladwriaeth y DU yn awr ar sail gadarnach, a dylai'r fframwaith adolygu oedran Pensiwn y Wladwriaeth gynnal y sefyllfa honno, drwy ei ymateb gwell i newid amcanestyniadau disgwyliad oes. Ond rhaid bod yn glir, bydd angen newidiadau pellach i oedran Pensiwn y Wladwriaeth i sicrhau system Pensiwn y Wladwriaeth fwy sefydlog yn y dyfodol, gan y rhagwelir i ddigwyliad oes barhau i gynyddu. Mewn ugain mlynedd, rhagwelir y bydd disgwyliad oes ar 65 oed wedi cynyddu o ddwy flynedd pellach ar gyfer dynion a merched.[12]

[11] ONS (2016) *2014-based England and Wales cohort life expectancies at birth, 1841 to 2064*. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/lifeexpectancies/adhocs/0059922014basedenglandandw alescohortlifeexpectanciesatbirth1841to2064

[12] ONS (2015) *Life tables, 2014-based principal projection, United Kingdom*. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulation andcommunity/birthsdeathsandmarriages/lifeexpectancies/ datasets/lifetablesprincipalprojectionunitedkingdom

## Sylfaen y dystiolaeth

Mae'r Ddeddf Pensiynau 2014 yn mynnu bod y Llywodraeth yn comisiynu dau adroddiad annibynnol i lywio'r adolygiad oedran Pensiwn y Wladwriaeth:

- dadansoddiad gan Actiwari'r Llywodraeth o amserlenni oedran Pensiwn y Wladwriaeth posibl yn y dyfodol, wedi ei gyfrifo o'r rhagamcanion diweddaraf o ddisgwyliad oes ac yn seiliedig ar gyfrannau penodol o fywyd oedolyn y gallai unigolion yn y dyfodol ddisgwyl eu treulio yn cael Pensiwn y Wladwriaeth; ac
- adroddiad ar y ffactorau ehangach sy'n berthnasol i'r oedran pensiwn fel y nodir gan y Llywodraeth, fel amrywiadau mewn disgwyliad oes. Ar gyfer Adolygiad 2017, ysgrifennwyd yr adroddiad hwn gan John Cridland CBE.

Cyhoeddwyd y ddau adroddiad ar 23 Mawrth 2017.[13] Mae'r Llywodraeth yn ddiolchgar am y dadansoddiad a gynhyrchwyd gan Actiwari'r Llywodraeth a John Cridland.

## Adroddiad Actiwari'r Llywodraeth

Mae adroddiad Actiwari'r Llywodraeth yn dangos sut y gallai oedran Pensiwn y Wladwriaeth newid er mwyn i unigolion wario ar gyfartaledd hyd at naill ai 32.0% neu 33.3% o'u bywydau fel oedolion yn cael Pensiwn y Wladwriaeth. Byddai'r ddwy amserlen yn dod â'r cynnydd o 67 oed i 68 oed ymlaen o'i gymharu â deddfwriaeth gyfredol. Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu'r ansicrwydd sylweddol yn amcanestyniadau disgwyliad oes yn y dyfodol. Mae'r amserlenni yn cael eu dangos isod.

### Amserlenni a gyfrifwyd o dan baramedrau a rhagdybiaethau penodol ar gyfer newidiadau i oedran Pensiwn y Wladwriaeth

| Newidiadau oedran Pensiwn y Wladwriaeth | Deddfwriaeth Presennol | Scenario 33.3% | Scenario 32.0% |
|---|---|---|---|
| 67 i 68 | 2044–46 | 2039–41 | 2028–30 |
| 68 i 69 | dd/g | 2053–55 | 2040–42 |
| 69 i 70 | dd/g | dd/g | 2054–56 |

## Adroddiad John Cridland

Gwnaeth John Cridland nifer o argymhellion sy'n ymwneud yn benodol ag oedran Pensiwn y Wladwriaeth, gan gynnwys y canlynol:

- dylai oedran Pensiwn y Wladwriaeth barhau i fod yn gyffredinol ar draws y DU, gan gynyddu dros amser i adlewyrchu gwelliannau mewn disgwyliad oes;
- dylai oedran Pensiwn y Wladwriaeth gynyddu i 68 oed rhwng 2037 a 2039, ar y pryd y byddai cyfran y bywyd oedolyn o gael Pensiwn y Wladwriaeth wedi cyrraedd tua'r cyfartaledd dros y ddegawd ddiwethaf;
- dylai cyflymder y newid fod yn gyson ac wedi ei wasgaru'n gyfartal ar draws y cenedlaethau; ac ar y sail hon ni ddylai oedran Pensiwn y Wladwriaeth gynyddu o fwy nag un flwyddyn mewn unrhyw gyfnod o 10 mlynedd (gan dybio nad oes newidiadau eithriadol i'r data a ddefnyddiwyd); a

[13] Government Actuary (2017) *State Pension age periodic review: report by the Government Actuary*. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/state-pension-age-periodic-review-report-by-the-government-actuary; State Pension age independent review (2017) *State Pension age independent review final report*. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/state-pension-age-independent-review-final-report

- dylai unigolion gael 10 mlynedd o rybudd o unrhyw newidiadau newydd i oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ddarparu sicrwydd i unigolion a chaniatáu ar gyfer 'ffenestri o sefydlogrwydd' lle gall effaith pob newid gael ei fonitro a mesurau lliniaru eu cyflwyno os yw'n briodol.

Mae'r Llywodraeth yn cytuno gyda'r strategaeth sy'n sylfaen i amserlen John: i gael llinell sylfaen glir a chyflymder newid wedi'i reoli a fydd yn sicrhau digon o rybudd.

## Casgliadau'r Llywodraeth

Mae pobl yn byw yn hirach. Mae hyn yn beth da, ond ni ddylem anwybyddu'r canlyniadau. Mae angen i ni ymateb i realiti cymdeithas sy'n heneiddio, gan roi sicrwydd i bobl yn eu henaint, tra'n gwneud yn siŵr ein bod yn deg i genedlaethau iau. Bydd y Llywodraeth hon yn sicrhau bod oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn adlewyrchu'r cynnydd mewn disgwyliad oes, tra'n diogelu pob cenhedlaeth yn deg. Bydd oedran Pensiwn y Wladwriaeth sy'n cynyddu yn helpu i reoli'r her ariannol sy'n gysylltiedig â chymdeithas sydd fwyfwy yn heneiddio - mae cynnydd o un flwyddyn yn oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn arbed tua 0.3% o GDP y flwyddyn mewn gwariant Pensiwn y Wladwriaeth,[14] a'r disgwyl yw y byddai cynyddu oedran Pensiwn y Wladwriaeth hefyd yn arwain at gynnydd mewn cyfraddau cyflogaeth. Os bydd pawb yn gweithio am flwyddyn yn fwy, byddai'n ychwanegu 1% i GDP.[15]

Mae'r Ddeddf Pensiynau 2014 yn darparu bod yn rhaid i'r adolygiad oedran Pensiwn y Wladwriaeth "gymryd sylw o ddisgwyliad oes a ffactorau eraill y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn credu sy'n berthnasol". Ar gyfer yr adolygiad hwn, y ffactorau eraill rydym wedi'u hystyried yw:

- **Tegwch rhwng y cenedlaethau:** dylai cenedlaethau o bensiynwyr y dyfodol dreulio ar gyfartaledd tua'r un gyfran o'u bywyd fel oedolyn gyda hawl i Bensiwn y Wladwriaeth ag y mae pensiynwyr sy'n byw yn awr, tra'n sicrhau bod y Pensiwn y Wladwriaeth yn parhau i fod yn uwch na'r lefel sylfaenol o'r prawf modd i roi diogelwch i bobl yn eu hymddeoliad; ac yn parhau i fod yn fforddiadwy i drethdalwyr y dyfodol, yng ngoleuni'r newidiadau demograffig a chostau cymdeithas sy'n heneiddio; a
- **Sut y gall cyflymder a hysbysu newid darparu'r sylfaen gadarn orau ar gyfer cynllunio ac arbed yn sgil yr ansicrwydd o ddisgwyliad oes y dyfodol:** rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo unigolion i gynllunio a chynilo ar gyfer yr ymddeoliad y maent ei eisiau a lleihau'r tebygolrwydd y bydd angen cynnydd gefn wrth gefn yn y dyfodol.

Rydym angen cysoni'r ffactorau hyn. Rydym wedi pwyso a mesur yn ofalus ac wedi penderfynu y gall yr adolygiad hwn gydbwyso hwy orau drwy ddilyn argymhelliad John Cridland a **chynyddu oedran Pensiwn y Wladwriaeth o 67 oed i 68 oed yn 2037-39** o'i ddyddiad sydd wedi'i ddeddfu o 2044-46. Mae yna achos da dros weithredu'n gynharach ar sail fforddiadwyedd a'r dystiolaeth ar y gyfran o fywyd oedolyn sy'n cael ei dreulio ar ôl ymddeol. Fodd bynnag, mae angen cydbwyso hyn yn erbyn argymhellion John Cridland ar gyflymder newid. Mae'r Llywodraeth yn cytuno gyda John y dylai cynnydd yn y dyfodol gael gofod priodol rhyngddynt ac felly ddim yn ystyried bod cynnydd i 68 oed yn syth ar ôl cynnydd i 67 oed yn ddymunol, fel y byddai angen, er enghraifft, o dan yr amserlen 32.0% a amlinellwyd yn adroddiad Actiwari'r Llywodraeth. Byddai cynnydd i 68 oed yn 2037-39 yn arbed £74bn erbyn 2045/46 o'i gymharu â'r amserlen oedran Pensiwn y Wladwriaeth sydd wedi'i ddeddfu ar hyn o bryd.[16]

Byddwn yn cynnal adolygiad pellach cyn deddfu i ddod â'r cynnydd yn oedran Pensiwn y Wladwriaeth i 68 oed ymlaen, er mwyn gallu ystyried y rhagamcanion diweddaraf o ddisgwyliad oes ac er mwyn ein galluogi i werthuso'r cynnydd cyfredol mewn oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Mae hyn yn unol ag egwyddorion John wrth iddo gymryd i ystyriaeth y rhagamcanion disgwyliad oes 2012 a 2014 yr ONS wrth wneud ei argymhelliad ar amseriad y cynnydd i 68 oed, er mwyn adlewyrchu'r ansicrwydd hyn. Mae rhagamcanion disgwyliad oes newydd yn cael eu cyhoeddi bob dwy flynedd ac mae'n gwneud synnwyr i

[14] OBR (2017) *Fiscal sustainability report charts and tables – January 2017*. Ar gael yn: http://budgetresponsibility.org.uk/download/fiscal-sustainability-report-charts-tables-january-2017/
[15] Barrell, R., Kirby, S. and Orazgani, A. (2013) *The macroeconomic impact from extending working lives*, Papur Gwaith DWP Rhif 95. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/214392/WP95.pdf
[16] Gweler yr Atodiad am fanylion.

seilio'r cynnydd i 68 oed ar y data mwyaf diweddar, gan ganiatáu amser ar gyfer rhybudd digonol. Ond o dan yr amserlen 2037-39, ni fydd neb a aned ar neu cyn 5 Ebrill 1970 yn gweld unrhyw newid i'w oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

## Cynnal tegwch yn yr hirdymor

Fel y dangoswyd yn y degawdau diwethaf, mae amcanestyniadau disgwyliad oes yn ansicr, ac yn fwy felly dros gyfnodau amcanestyniad hirach. O ystyried yr ansicrwydd hwn, a'r ffaith y bydd yna o leiaf tri adolygiad oedran Pensiwn y Wladwriaeth bellach cyn bydd y newid i 68 oed yn dechrau, nid ydym yn bwriadu ffurfioli'r polisi y tu hwnt i 2037-39 yn y cam hwn. Fodd bynnag, yn y tymor hir, mae'r Llywodraeth yn bwriadu ymrwymo i 'hyd at 32%' fel y gyfran gywir o fywyd oedolyn a dreulir yn cael Pensiwn y Wladwriaeth. Mae hyn oherwydd:

- Mae'r amserlen oedran Pensiwn y Wladwriaeth sy'n deillio o'r sefyllfa 32.0% yn gyson â'r gyfran gyfartalog o fywyd oedolyn sy'n cael ei dreulio dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth a brofir gan bobl sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth dros y 25 mlynedd diwethaf;[17] a
- Bydd yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer cynllunio a chynilo, drwy gynnal gwerth y Pensiwn y Wladwriaeth ar lefel sy'n darparu pobl gyda diogelwch mewn ymddeoliad ond mae'n sicrhau ei fod yn aros yn fforddiadwy i drethdalwyr y dyfodol.

O dan senario 32%, wrth i bobl fyw yn hirach, bydd y swm cyfartalog o amser maent yn ei dreulio mewn ymddeoliad yn cynyddu.

Dylem fod yn glir na fydd y cynnydd nesaf yn dod â ni at ein cyfran ddewisol. Ond os ydym am sicrhau bod y Pensiwn y Wladwriaeth yn parhau i fod yn fforddiadwy i drethdalwyr y dyfodol, bydd angen i adolygiadau dilynol ystyried yn ofalus pryd y gellir ei gyrraedd. Mae newid demograffig yn wasgedd tymor hir allweddol ar gyllid cyhoeddus ac mae'n bwysig ein bod yn realistig wrth osod amserlen tymor hir, fel y gallwn roi'r sicrwydd i bensiynwyr y dyfodol y bydd Pensiwn y Wladwriaeth yn parhau i fod yn uwch na lefel sylfaenol y prawf modd.

## Cefnogaeth yn hwyrach mewn bywyd

Mae'r Llywodraeth yn glir bod yn rhaid i gynnydd mewn oedran Pensiwn y Wladwriaeth fod yn rhan o becyn ehangach sy'n annog pobl i gynllunio ar gyfer eu hymddeoliad, galluogi pobl i weithio am gyfnod hirach lle y gallant, ac yn cefnogi pobl sy'n methu â gweithio.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod yr angen i ddarparu sicrwydd a thryloywder i bensiynwyr y dyfodol. Yn ogystal â cheisio darparu digon o rybudd i unigolion yr effeithir arnynt gan y newidiadau newydd i'w oedran Pensiwn y Wladwriaeth, rydym yn cytuno â John Cridland bod yn rhaid i'r Llywodraeth fod â strategaeth glir ar gyfer cyfathrebu newidiadau i oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn y dyfodol, ac i gynorthwyo gyda chynllunio ariannol a chyflogaeth yn hwyrach mewn bywyd.

Mae'r Llywodraeth yn credu y gallai strategaeth gyfathrebu:

- cyflwyno negeseuon am newidiadau yn oedran Pensiwn y Wladwriaeth drwy ystod o ddulliau cyfathrebu, gan fanteisio ar dechnolegau a ddaw i'r amlwg yn y blynyddoedd i ddod;
- annog unigolion i gael gwybod am ac i adolygu'n rheolaidd eu sefyllfa Pensiwn y Wladwriaeth bersonol eu hunain - er enghraifft drwy ddefnyddio'r gwasanaeth Gwirio eich Pensiwn y Wladwriaeth ar-lein;

[17] O dan senario 32%, y gyfran gyfartalog o fywyd oedolyn y mae pobl sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth rhwng 2028 a 2060 y disgwyl i wario dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth fyddai 31.3%. Mae hyn yn debyg i'r gyfran gyfartalog o fywyd oedolyn yn cyrraedd 65 oed (oedran Pensiwn y Wladwriaeth gwrywaidd) dros y 25 mlynedd diwethaf (rhwng 1992 a 2016) roedd disgwyl iddynt wario uwchlaw 65 oed.

- annog mwy o ymgysylltiad mewn pensiynau a chynllunio ariannol ar gyfer yn hwyrach mewn bywyd drwy gefnogi datblygiadau newydd fel y Dangosfwrdd Phensiynau, cyflwyno digidol ehangach a chreu corff canllawiau ariannol unigol; a
- gwneud defnydd helaeth o sianelau cyfathrebu rhanddeiliaid, yn ogystal â chyfryngau digidol a chonfensiynol ehangach, i godi a sicrhau ymwybyddiaeth barhaus am unrhyw newidiadau mewn oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Mae'r Llywodraeth yn cytuno gyda John Cridland bod rhaid i gynydd i'r amserlen oedran Pensiwn y Wladwriaeth ffurfio rhan o system ehangach sy'n cefnogi pobl mewn cyflogaeth neu hunangyflogaeth, tra hefyd yn cefnogi'r rhai y mae eu rhagolygon gwaith yn gyfyngedig neu wedi'u cwtogi gan anabledd, cyflwr iechyd, neu gyfrifoldebau gofalu. Rydym yn adolygu gallu'r gofalwyr tymor hir i gymryd absenoldeb a byddwn yn nodi ein cynlluniau maes o law.

Byddwn yn asesu'r posibiliadau ar gyfer adeiladu ar y system bresennol o gymorth lles wrth i ni werthuso gweithrediad ac effeithiau Credyd Cynhwysol a Phensiwn y Wladwriaeth newydd, ac effeithiau codiadau i oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn y dyfodol sydd eisoes wedi'u deddfu ar eu cyfer. Yn y cyd-destun hwn, byddwn hefyd yn ystyried ymgynghoriad diweddar y Llywodraeth ar iechyd a gwaith. O ran argymhellion penodol John Cridland, bydd y rhain, ochr yn ochr â thystiolaeth arall, yn ffurfio sail ystyriaeth y dyfodol ar sut rydym yn rheoli effeithiau codiadau mewn oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

## Casgliad

Mae'r adroddiad hwn yn egluro bod y Llywodraeth wedi penderfynu codi oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar sail reolaidd, wedi'i gynllunio yn y dyfodol, oherwydd ein bod i gyd yn byw yn hirach ac mae angen i ni gadw Pensiwn y Wladwriaeth yn gynaliadwy tra'n ei gynnal yn uwch na'r lefel sylfaenol o'r prawf modd. Rydym yn bwriadu gwneud hyn drwy gynnal cyfran benodol o amser yn cael Pensiwn y Wladwriaeth fel mae disgwyliad oes yn cynyddu yn unol â phrofiad dros y 20 i 30 mlynedd diwethaf. Mae gweithredu'r cynllun ar gyfer oedran Pensiwn y Wladwriaeth a amlinellir uchod yn golygu:

- bydd gennym system gadarn sy'n sensitif i newidiadau mewn disgwyliad oes tra'n cynnal gwerth y Pensiwn y Wladwriaeth ar lefel uwch na lefel sylfaenol y prawf modd;
- bydd gennym eglurder a sicrwydd, a gall pobl gynllunio eu cyllid yn ddiweddarach mewn bywyd ar sail gadarn o wybod, tipyn i ffwrdd o oedran Pensiwn y Wladwriaeth, beth fyddant yn ei gael a phryd y byddant yn ei gael; ac
- yn seiliedig ar ragamcanion cyfredol, rhagwelir y bydd nifer mwy o bobl yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn y dyfodol nag heddiw, a byddant yn cael mwy o Bensiwn y Wladwriaeth yn ystod eu hoes na chenedlaethau blaenorol o'u blaen.